# Cofnodion cryno - Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

Lleoliad:

**Ystafell Bwyllgora 3 - y Senedd**

Dyddiad: Dydd Llun, 22 Ionawr 2018

Amser: 14.45 - 17.00

Gellir gwylio'r cyfarfod ar Senedd TV yn:

http://senedd.tv/cy/4504

## Yn bresennol

| **Categori** | **Enwau** |
|---|---|
| Aelodau'r Cynulliad: | Nick Ramsay AC (Cadeirydd)<br>Mohammad Asghar (Oscar) AC<br>Neil Hamilton AC<br>Vikki Howells AC<br>Adam Price AC<br>Lee Waters AC |
| Tystion: | Tracey Burke, Llywodraeth Cymru<br>Jo-anne Daniels, Llywodraeth Cymru<br>John Howells, Llywodraeth Cymru<br>Emma Williams, Llywodraeth Cymru |
| Swyddfa Archwilio Cymru: | Anthony Barrett - Archwilydd Cyffredinol Cynorthwyol<br>Matthew Mortlock<br>Mike Usher |
| Staff y Pwyllgor: | Fay Bowen (Clerc)<br>Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)<br>Katie Wyatt (Cynghorydd Cyfreithiol) |

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r Pwyllgor.

1.2 Cafwyd ymddiheuriadau gan Rhianon Passmore AC.

## 2 Papur(au) i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Gofynnodd Lee Waters AC am gywiro pwynt 4.2 yng nghofnodion 15 Ionawr 2018.

## 3 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Sesiwn Dystiolaeth 5

3.1 Derbyniodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Tracey Burke, Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus, Jo-Anne Daniels, Cyfarwyddwr Cymunedau a Threchu Tlodi, John Howells, Cyfarwyddwr Tai ac Adfywio, ac Emma Williams, Dirprwy Gyfarwyddwr Polisi Tai fel rhan o'i ymchwiliad i Raglen Cefnogi Pobl Llywodraeth Cymru.

3.2 Cytunodd Tracey Burke i:

- Ganfod a wahoddwyd sefydliadau'r trydydd sector i gymryd rhan yn y gweithdai ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod datblygiad y prosiect Pathfinder
- Anfon rhestr o'r deg grant sy'n ffurfio'r grant integredig sengl arfaethedig

## 4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y busnes canlynol:

4.1 Derbyniwyd y cynnig.

## 5 Y Rhaglen Cefnogi Pobl gan Lywodraeth Cymru: Trafod y dystiolaeth a ddaeth i law

5.1 Ystyriodd yr Aelodau y dystiolaeth a ddaeth i law a chytunwyd y dylid paratoi adroddiad byr.

5.2 Cytunwyd y dylai'r cwestiynau nas cyrhaeddwyd ynghylch Adroddiad yr Archwilydd Cyffredinol ar Ddigartrefedd gael eu hanfon at Lywodraeth Cymru yn ysgrifenedig.

## 6 Cyllid cychwynnol Llywodraeth Cymru ar gyfer prosiect Cylchffordd Cymru: Trafod ymateb Llywodraeth Cymru

6.1 Ystyriodd yr Aelodau yr ohebiaeth a ddaeth i law ar brosiect Cylchffordd Cymru a barn y mwyafrif o'r Pwyllgor oedd cynnal sesiwn lafar gyda'r Ysgrifennydd Parhaol ar 5 Chwefror.